



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Trefniadaeth ysgolion: ymgynggori â phlant a phobl ifanc



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 119/2013

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2013

Trefniadaeth ysgolion: ymgynghori â phlant a phobl ifanc

- Cynulleidfa** Awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; cynigwyr eraill mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion.
- Trosolwg** Yn y *Cod Trefniadaeth Ysgolion* Cod Statudol dogfen rhif: 006/2013, mae'n dweud bod yn rhaid i'r rheini sy'n llunio cynigion trefniadaeth ysgolion wneud trefniadau priodol i ymgynghori â disgyblion pob ysgol y mae eu cynigion yn effeithio arni ac, os yn bosibl, i ymgynghori hefyd â phlant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgol honno yn y dyfodol. Nod y ddogfen hon yw rhoi canllawiau ymarferol a chryno i gynigwyr ar sut i gynnal ymgynghoriad o'r fath. Mae'n disgrifio rhai arferion da a hefyd nifer o arferion y dylai cynigwyr eu hosgoi. Mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn y gorffennol.
- Camau i'w cymryd** Gweler uchod.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6017
e-bost: SchoolsManagementDivision3@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Cod Trefniadaeth Ysgolion Cod Statudol dogfen rhif: 006/2013

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Egwyddorion ac arferion	2
Y prif egwyddorion	2
Arferion da – dulliau ymgynghori	2
Arferion da – cynnwys yr ymgynghoriad	3
Arferion y dylid eu hosgoi	4
Enghreifftiau	5

Cyflwyniad

- 1.1 O 1 Hydref 2013 ymlaen, bydd yn ofynnol ymgynghori ar unrhyw gynigion i agor ysgol, ei chau, neu ei newid yn sylweddol, a rhaid cyhoeddi'r cynigion hynny a phenderfynu arnynt yn unol â'r darpariaethau yn Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Rhif:006/2013) ('y Cod').
- 1.2 Yn y Cod, mae'n dweud bod yn rhaid i gynigwyr (hy awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr ysgolion gwirfoddol newydd) wneud trefniadau priodol i ymgynghori â disgyblion pob ysgol y mae cynigion trefniadaeth ysgolion yn effeithio arni ac, os yn bosibl, i ymgynghori hefyd â phlant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgol honno yn y dyfodol. Mae'r Cod yn dweud bod rhaid ymgynghori â chynghorau ysgol yr ysgolion perthnasol, a hefyd y dylid ymgynghori â disgyblion unigol lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol. Mae'r gofyniad yn cyd-fynd ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n dweud bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i ddisgwyl bod eu barn yn cael ei chlywed a'i hystyried wrth i oedolion wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- 1.3 Mae'r Cod yn dweud y dylai cynigwyr roi buddiannau dysgwyr uwchlaw pob buddiant arall. Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfle i gymryd rhan yn y broses ymgynghori, a bod eu sylwadau a'u barn yn cael eu hystyried yn ofalus, yn ffordd werthfawr i'r cynigwyr wybod a yw eu cynigion yn bodloni anghenion y dysgwyr. Hefyd gallai fod yn gyfle i ennyn cefnogaeth y dysgwyr i'r newidiadau arfaethedig.
- 1.4 Nod y ddogfen wybodaeth hon yw rhoi canllawiau ymarferol a chryno i gynigwyr, er mwyn egluro wrthynt sut y dylent fynd ati i ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Mae'n disgrifio rhai arferion da ar gyfer cynnal ymgynghoriadau a hefyd nifer o arferion y dylai cynigwyr eu hosgoi. Mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn y gorffennol.
- 1.5 Nid yw'r ddogfen yn ganllaw cynhwysfawr ar gyfer ymgynghori â phlant a phobl ifanc nac yn set o ofynion haearnaidd y mae'n rhaid eu bodloni. Bydd angen i gynigwyr ystyried yn ofalus gyd-destun pob cynnig unigol cyn penderfynu pa ffurf a pha lefel o ymgynghori fyddai'n briodol. Bydd rhai adegau pan fydd angen i gynigwyr ymdrechu'n galed i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhoi eu barn i'w hystyried, ond dro arall bydd natur y cynnig yn golygu na fydd angen gwneud ond ychydig o waith ymgynghori. Serch hynny, y peth pwysig bob amser yw gwneud cymaint â phosibl i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses.

Egwyddorion ac arferion

Y prif egwyddorion

- 2.1 Mae'r Cod yn nodi bod cyfraith achosion wedi sefydlu y dylai'r broses ymgynghori:
 - ddigwydd pan fydd y cynigion wrthi'n cael eu llunio;
 - cynnwys y rhesymau y tu ôl i gynigion a gwybodaeth ddigonol amdanynt er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu eu hystyried ac ymateb iddynt mewn modd deallus;
 - rhoi digon o amser i bobl allu ystyried ac ymateb;
 - sicrhau bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn drylwyr wrth wneud y penderfyniad terfynol.
- 2.2 Mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc ag y maent wrth ymgynghori ag unrhyw un arall.
- 2.3 Yn ogystal â hynny, mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn darparu fframwaith cyson a chymeradwy i'w ddefnyddio wrth ymgynghori â phlant. Dylai cynigwyr wneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r safonau hyn, gan weithredu gyda'r nod o'u bodloni. Mae'r safonau i'w gweld drwy glicio ar y ddolen isod:
<http://goo.gl/UbkLQY>
- 2.4 Rhaid i gynigwyr ofalu bod eu ffordd o ddarparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc, a'r ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei mynegi, yn briodol ar gyfer eu hoedran. Hefyd, bydd angen i gynigwyr ystyried yn ofalus sut y disgwylir i blant a phobl ifanc fynegi eu barn, gan sicrhau bod y prosesau y maent yn eu defnyddio yn creu'r cyfle gorau posibl i blant a phobl ifanc gael dweud eu dweud. Mae'n hollbwysig bod cynigwyr yn parchu ac yn gwerthfawrogi barn plant a phobl ifanc, ac yn darparu tystiolaeth eu bod wedi ei hystyried yn briodol

Arferion da – dulliau ymgynghori

- 2.5 Mae mwy nag un ffordd o gynnal ymgynghoriad. Gallai cynigwyr gynnal cyfarfodydd, trefnu gweithdai ar gyfer grwpiau bach neu ofyn am sylwadau drwy gyhoeddi holiadur. Hefyd dylai cynigwyr ystyried defnyddio'r we i roi gwybodaeth ac i gael ymatebion, yn enwedig lle gallai cynigion effeithio ar blant a phobl ifanc ar draws ardal gyfan yn hytrach nag mewn ysgolion penodol. Fodd bynnag, fel rheol, dylid ymgynghori â chynghorau ysgol mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Pa bynnag ddull ymgynghori a ddewisir, dylai fod yn nod o fewn cyd-destun unrhyw gynigwyr i sicrhau bod cynifer o blant a phobl ifanc â phosibl yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

- 2.6 Dylai cynigwyr ddefnyddio'u dychymyg wrth ymgynghori, yn enwedig wrth ymdrin â phlant iau – er enghraifft, gallai ymgynghoriad ddefnyddio celf neu gemau yn ogystal â chynnal grwpiau trafod.
- 2.7 Dylai plant a phobl ifanc gael y cyfle i ofyn am gymorth gan oedolyn, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr wybodaeth ac yn gallu cyflwyno eu sylwadau. Dylai'r cynigwyr fynd ati i benodi oedolion a fyddai'n gallu cyflawni'r rôl hon.
- 2.8 Mae'n bosibl y byddai'r awdurdodau am benodi unigolion sydd wedi eu hyfforddi i ennyn diddordeb plant i gynnal ymgynghoriad, ac i sicrhau bod y plant yn gallu cyflwyno eu hymatebion. Gellid defnyddio gweithwyr chwarae i drefnu a chynnal gweithgareddau i grwpiau at ddibenion ymgynghori â'r plant iau.
- 2.9 Dylai cynigwyr fod yn barod i ddefnyddio gwahanol dulliau ar gyfer un ymgynghoriad er mwyn ei wneud yn briodol i blant o wahanol oedran. Er enghraifft wrth ymgynghori ar ad-drefnu addysg uwchradd, mae'n bosibl y byddai angen cyhoeddi dogfennau ymgynghori ar wahân ar gyfer disgyblion cynradd a disgyblion uwchradd.
- 2.10 Os cynhelir cyfarfodydd neu weithdai ymgynghori, dylai cynigwyr sicrhau eu bod yn rhoi digon o amser a digon o gyfle i'r plant a'r bobl ifanc, neu'r oedolion sy'n eu cynrychioli, gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.
- 2.11 Gallai fod yna rai disgyblion a fydd am gyflwyno eu sylwadau'n ddiennw. Un ffordd o drefnu iddynt wneud hynny fyddai gosod blwch sylwadau yn yr ysgol. Drwy wneud hynny, hwyrach y byddai'n bosibl cael mwy o amrywiaeth barn am y cynnig.
- 2.12 Pan fo angen, dylai cynigwyr wneud trefniadau penodol er mwyn sicrhau bod plant agored i niwed a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cyfle i fynegi eu barn hwythau.
- 2.13 Pa bynnag dull/dulliau ymgynghori a ddewisir, rhaid i gynigwyr sicrhau cysondeb wrth ymgynghori â gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, pan fo nodweddion y grwpiau a'u lefel o diddordeb yn y cynnig yn debyg. Er enghraifft, os cynigir bod nifer o ysgolion cynradd yn cau ac yn cael eu disodli gan un ysgol gynradd newydd, rhaid i natur yr ymgynghoriad a gynhelir â disgyblion pob un o'r ysgolion cynradd fod yn union yr un fath. Ond, os cynigir bod ysgol gynradd yn cau a bod ei disgyblion yn cael eu gwasgaru ymhlith nifer o ysgolion cynradd eraill, nid oes rhaid i'r ymgynghoriad a gynhelir ar gyfer disgyblion yr ysgol a fydd yn derbyn fod yn union yr un fath â'r ymgynghoriad a gynhelir ar gyfer disgyblion yr ysgol sy'n cau.

Arferion da – cynnwys yr ymgynghoriad

- 2.14 Dylid egluro'r broses trefniadaeth ysgolion a nodi'r amserlen yn gryno.
- 2.15 Dylai fod yn hawdd i blant a phobl ifanc ddeall sut y gallant gyflwyno eu sylwadau, a dylai'r dulliau o gyflwyno ymatebion fod yn briodol ar eu cyfer. Dylid sicrhau bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yn glir a dylai'r dyddiad hwnnw gyfateb i'r dyddiad a nodir ar y ddogfen ymgynghori ar gyfer oedolion.

- 2.16 Dylai fod yn hawdd hefyd i blant a phobl ifanc ddeall sut y bydd eu sylwadau yn cael eu hystyried, a sut y gallant ddod o hyd i'r adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr sicrhau bod unrhyw sylwadau a gyflwynir gan blant a phobl ifanc yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad a dylai'r cynigwyr nodi eu hymateb i'r sylwadau hynny. Rhaid ei gwneud yn hawdd i blant a phobl ifanc weld yr adroddiad, a lle bo hynny'n briodol, dylid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau eu bod yn deall ei gynnwys er mwyn iddynt allu gweld sut y cafodd eu sylwadau eu hystyried.
- 2.17 Rhaid sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall y bydd eu sylwadau'n cael eu hystyried o ddifrif, ond nad yw hynny'n gyfystyr â dweud y bydd eu gwrthwynebiad o reidrwydd yn golygu na fydd y cynnig yn cael ei weithredu.
- 2.18 Gallai ymgynghoriad fod yn gyfle i blant a phobl ifanc awgrymu sut y gellid gwella cynnig.
- 2.19 Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei darparu wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc, dylai cynigwyr edrych ar y rhestr o'r materion sydd i'w cynnwys yn y ddogfen ymgynghori gyffredinol, fel y'i nodir yn 3.2 yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan eu cyflwyno mewn fformat hawdd ei ddeall yn ôl oedran y gynulleidfa.
- 2.20 Gallai awdurdodau lleol ystyried defnyddio enghreifftiau o gynigion perthnasol y gorffennol sydd wedi eu gweithredu'n llwyddiannus, er mwyn helpu i egluro'r cynnig dan sylw. Gallai'r hyn sydd gan blant a phobl ifanc i'w ddweud am gynigion sydd wedi effeithio arnynt yn y gorffennol, hefyd fod yn ddefnyddiol.
- 2.21 Gan amlaf, yr hyn sy'n poeni plant a phobl ifanc fwyaf pan wneir cynigion sy'n effeithio arnynt yw ymdopi â symud o un sefyllfa i'r llall, yn enwedig pan fydd hynny'n golygu newid ysgol. Dylai cynigwyr wneud ymdrech arbennig i egluro'n fanwl beth fyddai goblygiadau ymarferol unrhyw newidiadau, er mwyn cael sylwadau disgyblion ar unrhyw drefniadau pontio arfaethedig.

Arferion y dylid eu hosgoi

- 2.22 Os mai'r awdurdod lleol sydd wedi llunio cynnig, ni ddylai adael y gwaith o drefnu a chynnal yr ymgynghoriad i staff/cyrff llywodraethu ysgolion.
- 2.23 Ni ddylid cynnal ymgynghoriad mewn modd sy'n canolbwyntio ar fanteision y cynnig yn unig, gan atal plant a phobl ifanc rhag rhoi eu barn ar y goblygiadau ehangach. Dylai cynigwyr sicrhau bod ymgynghoriad yn gytbwys, drwy nodi unrhyw anfanteision a allai ddeillio o gynnig, yn ogystal â'r manteision.
- 2.24 Os mai awdurdod lleol yw'r cynigydd, mae'n bwysig nad yw'n methu â chynnal ymgynghoriad priodol â disgyblion oherwydd bod pennaeth neu gorff llywodraethu ysgol berthnasol yn ei gwneud hi'n anodd ymgysylltu â'r disgyblion. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu hwyluso'r gwaith o ymgynghori â disgyblion.
- 2.25 Ni ddylai cynigwyr gyfyngu'r ymgynghoriad i gyfarfodydd grwpiau mawr yn unig, gan y gallai rhai plant a phobl ifanc deimlo'n anghyfforddus ynghylch mynegi eu barn mewn cyfarfodydd o'r fath.

Enghreifftiau

- 3.1 Roedd awdurdod lleol yn awyddus i greu cyfleuster addysgu arbenigol mewn ysgol gynradd, a hynny ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Anfonwyd papur ymgynghori cryno at y disgyblion oedran cynradd, a oedd yn egluro'n syml bwrpas y cyfleuster, yr anghenion penodol sydd gan blant ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, a'r rhesymau y tu ôl i'r cynnig. Hefyd, roedd yn egluro sut y byddai'r cyfleuster yn cael ei leoli yn yr ysgol, nifer y disgyblion a fyddai ynnddo, ynghyd â'r ffaith y byddai'n cael ei ariannu ar wahân ac y byddai'n cael ei adnoddau a'i staff ei hunan. Roedd hefyd yn dweud y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i fanteisio ar bob cyfle i integreiddio'r disgyblion newydd â'r disgyblion sydd ym mhrif ffrwd yr ysgol.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n rhoi gwybod i'r disgyblion y gallant fynegi eu barn drwy ysgrifennu at yr awdurdod lleol neu drwy anfon e-bost, a bod yr awdurdod lleol wedi trefnu cwrdd â grŵp o ddisgyblion o'r ysgol i drafod y cynnig.

Yn olaf, roedd y ddogfen yn egluro beth fyddai'n digwydd ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau, a hefyd y cyfle i wrthwynebu a'r broses o wneud penderfyniad terfynol.

Ar ôl dosbarthu'r ddogfen ymgynghori, cyfarfu swyddogion yr awdurdod lleol â grŵp o ddisgyblion o flwyddyn 5 a blwyddyn 6 yr ysgol. Roedd cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol ac un aelod o staff yn bresennol hefyd. Cafwyd cyflwyniadau ac eglurwyd cefndir y cynnig. Wedyn, gwahoddwyd y disgyblion i ofyn cwestiynau neu i godi unrhyw bryderon a oedd ganddynt. Cafodd cwestiynau'r disgyblion ac ymatebion swyddogion yr awdurdod lleol eu cofnodi'n llawn ac wedyn eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion eraill i'r ymgynghoriad.

- 3.2 Roedd awdurdod lleol yn cynnig sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd. Aeth ati i gael sylwadau plant a phobl ifanc yn y gymuned ehangach. Trefnodd cydgysylltydd fforwm ieuentid yr awdurdod lleol weithdai ar wahân ar gyfer aelodau'r fforymau cynradd a'r fforymau ieuentid lleol a grŵp prosiect cyfranogi a chynhwysiant i drafod y cynnig.

Rhoddwyd yr un wybodaeth gefndir am y cynnig i bob grŵp, ynghyd ag esboniad o'r rhesymau y tu ôl iddo a manylion y modd y byddai'n cael ei weithredu. Wedyn, gofynnwyd i'r grwpiau ddatgan a oeddent o blaid y cynnig neu yn ei erbyn, drwy ddangos cerdyn a oedd yn nodi eu hymateb. Cofnodwyd y nifer a oedd o blaid a'r nifer a oedd yn erbyn. Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi pleidleisio yn erbyn pam yr oeddent yn gwrthwynebu'r cynigion a pha newidiadau neu syniadau eraill yr hoffent eu hawgrymu. Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran a fyddent yn hoffi gwneud unrhyw sylwadau pellach. Cafodd yr holl ymatebion a sylwadau eu cofnodi, a dywedwyd wrth y rheini a gymerodd ran y byddai'r ymatebion a'r sylwadau hynny'n cael eu rhoi i'r awdurdod lleol er mwyn iddo eu hystyried.

3.3 Roedd awdurdod lleol yn awyddus i gynnig cyfres o newidiadau cysylltiedig i'w ddarpariaeth gynradd a meithrin, a fyddai'n golygu cau dwy ysgol gynradd ac un ysgol feithrin. Gofynnwyd i wasanaeth chwarae'r awdurdod ymgynghori â'r plant hynny y byddai'r cynnig yn effeithio arnynt. Gyda chymorth staff addysgu, trefnwyd gweithdai i gofnodi barn a sylwadau'r disgyblion. Oherwydd ystod oedran y disgyblion a oedd yn cymryd rhan, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys celf a gemau, yn ogystal â grwpiau trafod.

Cafodd gweithdai ar wahân eu cynnal ar gyfer grwpiau oedran babanod a grwpiau oedran cynradd, gan roi cyfle i'r cyfranogwyr drafod yn agored, wedi eu hannog i ystyried y canlynol, sef;

- Beth oedd eu barn bersonol am y posibilrwydd y byddai'r ysgol yn cau a sut yr oeddent yn teimlo am hynny;
- Sut byddent yn teimlo am gyfarfod â ffrindiau newydd mewn ysgol newydd, pe bai eu hysgol bresennol yn cau;
- Sut yr oeddent yn teimlo ynghylch y posibilrwydd o gael eu haddysgu gan athrawon newydd;
- Pa gamau y gellid eu cymryd i'w gwneud yn haws iddynt integreiddio.

Yn achos y plant meithrin, cymerodd y trefnwyr bob gofal i sicrhau bod yr ymgynghoriad mor syml a hawdd ei ddeall â phosibl. Cyn i'r ymgynghoriad gael ei gynnal, cynhaliwyd gemau ar gyfer grwpiau yn ogystal â gweithgareddau celf a chreffft. Wedyn, gofynnwyd tri chwestiwn i'r disgyblion:

- Beth ydych chi'n ei hoffi ynghylch eich ysgol feithrin?
- Sut ydych chi'n teimlo am fynd i ysgol newydd? Ydych chi'n hapus, yn drist, wedi eich cyffroi, neu'n bryderus?
- Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato yn eich ysgol newydd?

Cafodd sylwadau a barn y disgyblion eu cofnodi a'u cynnwys mewn adroddiad byr.